# DINESYDD
## Mawrth ~ Ebrill

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1980

RHIF 66


# Mae'r sgrifen ar y mur

## *Ein gwlad, ein tir, medd prydleswyr*




**Cyn i feysydd glas de-ddwyrain Cymru ddod yn drefi dros nos yn ail hanner y ganrif ddiwethaf, fe welwyd cyfle gan dirfeddianwyr fel yr Arglwydd Bute i elwa ar y sefyllfa. Yn lle gwerthu'r tir yr oedd tai wedi'u codi arno, penderfynodd llawer o'r tirfeddianwyr gadw'r tir yn eu meddiant a'i osod ar les o 99 mlynedd i'r rhai a oedd yn prynu'r tai. Yn aml iawn, fe gynhwysid gwerth y tir ym mhris y tŷ ond wedyn derbynid treth dir flynyddol ar ben hynny. Felly roedd y tirfeddianwyr yn cael eu harian ddwywaith ac yn cael trydydd taliad wrth werthu'r tir neu ynteu feddiannu'r tŷ ar ôl y 99 mlynedd os nad oedd y prydleswr wedi llwyddo i brynu'r tir. Ond nid yw budd y tirfeddiannwr yn gorffen yno oherwydd pan werthir rhyddfraint tŷ, fe gedwir rhai cyfamodau ar ddefnydd y tŷ a'r tir, ac fe werthir y rhain i gael budd am y pedwerydd tro.**

I'r mwyafrif llethol o'r bobl, mae'r gyfundrefn brydles yn hollol anfoesol, ond nid dyna farn ceidwadwyr Seisnig fel Ian Grist, Aelod seneddol Gogledd Caerdydd, na chynrychiolwyr tirfeddianwyr fel Debenham Tewson, Caerdydd. Yn ôl Debenham Tewson, nid oes dim o'i le ar ofyn pris o £4,000 i brynu rhyddfraint tŷ sy'n werth dim ond £11,000. Dywedodd un o ddynion y cwmni wrthyf, "Dydyn ni ddim yma i ystyried moesoldeb y gyfundrefn brydles ond i wneud elw i Ymddiriedolaeth Pensiynwyr Petroleum Prydeinig." (Cyfieithiad) Ac mae Ian Grist yn gwrthwynebu ymladd dros newid y ddeddf er mwyn gwneud pris prynu rhyddfraint yn llai; fe ddywedai, "Nid wyf am ladrata oddi ar Peter (British Petroleum) er mwyn talu Paul (y prydleswyr)." (Cyfieithiad) Nid oes angen ar bobl fel hyn fygwth streico i gael mwy o arian — dim ond gwasgu hen brydleswyr sydd rhaid iddynt.

Mae 40% o holl dai prydles Prydain yng Nghymru, ac felly mae cartrefi prydles yn ddeuddeg gwaith mwy cyffredin yng Nghymru nag yn Lloegr a'r Alban. Ond i'r rhai sy'n ystyried problemau ar raddfa Brydeinig nid yw prydles yn broblem bwysig er mor fawr yw'r effaith ar Gymru. Amcangyfrifir bod hanner miliwn o bobl Cymru yn byw mewn tai prydles. Adeiladwyd llawer o dai dan y drefn hon tua diwedd y ganrif ddiwethaf pan oedd llefydd fel Caerdydd a threfi'r cymoedd yn tyfu'n gyflym. Y canlyniad yw bod llawer o brydlesi ar fin dod i ben yn awr. Mewn rhan o'r Waun Ddyfal (Cathays), daeth prydlesi tai i ben fis Medi diwethaf ac mae'r prydleswyr yn wynebu prisiau rhwng £3,200 a £4,200 i brynu'r rhyddfraint. Pensiynwyr yw'r trigolion gan mwyaf, gyda llawer yn eu twythdegau a'r un hynaf yn naw deg chwech oed. Nid rhyfedd felly nad ydynt yn medru fforddio talu'r prisiau enfawr yma.

Seilir y prisiau uchel hynny ar ystyriaeth gan Debenham Tewson bod gwerth y tir rhwng chwarter a thraean gwerth marchnad y tŷ. Ond ni fyddai neb yn talu cymaint am dir dan gartref rhywun arall mewn ardal lle byddai cost adeiladu tŷ newydd yn ddwywaith cymaint â gwerth y tai eraill sydd yna yn barod. Mae tirfesurydd (surveyor) annibynnol wedi datgan y byddai yn ystyried degfed ran i fod yn addas ar gyfer gwerth y tir. Ac mae'r rhai sydd am ddiddymu'r gyfundrefn brydles yn gyfan gwbl, megis Plaid Cymru, yn dweud y byddai canfed ran o werth y tŷ yn rhoi digon o iawndal i'r tirfeddiannwr.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae mudiadau sy'n ymladd am ddiwygio neu ddiddymu'r ddeddf Brydles wedi dwyn pwysau ar y pleidiau gwleidyddol. Y canlyniad yw bod cynigion i newid y ddeddf Brydles wedi cael eu cynnwys yn y Bil Tai sydd ger bron Senedd Llundain ar hyn o bryd. Ond wrth gwrs nid yw awgrymiadau'r Bil yn ddigonol a gobeithir y bydd dyfalbarhad yr ymgyrchwyr yn ennill newidiadau sylweddol ychwanegol. Gyda hyn mewn golwg ac wrth sylweddoli hefyd yr angen am bwyso ar bobl fel Debenham Tewson, penderfynodd Cymdeithas Prydleswyr Gwaun Ddyfal a'r Rhath feddiannu swyddfa Debenham Tewson yn Heol y Castell, Caerdydd. Daeth trigain o bobl felly at ei gilydd i wneud hynny a meddiannwyd y swyddfa tan iddynt gael cynnig gan brif gyfarwyddwr y cwmni, Mr Joy(!), i gwrdd â'r prydleswyr a thrafod y prisiau annerbyniol. Mae'r frwydr yn parhau.

OWEN JOHN THOMAS



# Golygyddol

Ers misoedd lawer, bellach, buom yn ymlwybro, yng ngwledydd Prydain, tuag at y dibyn yn economaidd, ac y mae'r rhagolygon mor arswydus fel bod sôn nawr am rwyg yn y cabinet rhwng y 'gweilch' sef Thatcher, Howe, Joseph, Nott a Biffen, a'r 'colomennod', sef Prior, Carrington, Gilmour, Walker, a St. John Stevas. Yn y rhifyn hwn, ceir adroddiad am farn dau o'r arglwyddi newydd o Gymru ar y sefyllfa economaidd a diwydiannol, ac y mae'r rhagolygon a welant yn echrydus. Proffwydir ychwanegiad o hyd at 50,000 at y diwaith yng Nghymru, sef cyfanswm o dua 140,000 erbyn i gynlluniau'r Gorfforaeth Ddur, yn unol â bwriadau'r Llywodraeth, gael eu gweithredu. Dywed Cangen Cymru o CDP (Conffederasiwn Diwydiannau Prydain) mai 30,000 (sef cyfanswm o dua 120,000) sy'n ein hwynebu ond dywed eraill fod sôn yn y Swyddfa Gymreig am gyfanswm o dua 160,000 o ddiwaith yng Nghymru (70,000 yn fwy na sy'n awr) erbyn 1981! Nid syndod felly fod termau fel "dad-ddiwydiannu", a "diffeithwch diwydiannol" ar wefusau pobol sy'n poeni am ganlyniadau'r polisïau distrywiol presennol.

Achosir cryn bryder yn ein bro ni, hefyd, gan gyfnewidiadau ym mholisi iaith yr awdurdod fel y gwelir mewn dwy erthygl yn y rhifyn hwn, un ohonynt yn ymwneud â'r polisi newydd ynglŷn â dysgu'r Gymraeg yn gyffredinol yn Ne Morgannwg, y llall â hynt a helynt y garfan arall yna o grwydriaid yn y diffeithwch, sef Ysgol Bryntaf.

Parthed y cyntaf, gall, yn ddiamau, lawer o anfanteision a pheryglon godi yn sgil polisi mor benagored onid annelwig â gadael i'r Gymraeg ddibynnu ar amgylchiadau lleol mewn ysgolion unigol. Cyferbynner hyn â'r lle diogel, hollol bendant, a roddir i'r Saesneg, a meddylier, yn y cyfamser, am y "dilysrwydd cyfartal" yr oedd Deddf yr Iaith Gymraeg, 1967, i'w sicrhau i'r iaith. Os prinder athrawon Cymraeg yw'r rheswm am y newid, pa fesurau a gymerir i sicrhau cyflenwad iawn gan yr awdurdodau, Cydbwyllgor Addysg Cymru, a'r Swyddfa Gymreig, fel y byddid yn ei wneud petai prinder o athrawon i ddysgu Saesneg? Ai cyrff marw ydynt oll?

Am Fryntaf, siom arall fydd yr oedi y tu hwnt i Fedi 1980 yn y ddarpariaeth gyflawn sy'n angenrheidiol o ganlyniad i'r tyfiant ardderchog yn y galw am Ysgolion Cymraeg yn y brifddinas. Eisoes bu diadell Bryntaf yn crwydro yn hirach nag y bu'r Israeliaid o dan Moses yn yr anialwch. Oes yna obaith y byddant, o dan arweiniad Adda, yn cyrraedd eu Canaan hwy erbyn 1981, ddwy flynedd a deugain wedi iddynt gychwyn ar eu taith?


## HYSBYSEBU

**Am fanylion ynglŷn â'n telerau hysbysebu, cysyllter â:**

**Cyhoeddwyr Cleglen Cyf,**
**43 Heol Eglwys Gadeiriol Isaf,**
**Caerdydd CF1 8LW.**
**Ffôn: 0222-396262**


# *Anfonwch eich defnyddiau!*

**O hyn ymlaen, wnewch chi anfon defnydd i Afallon, 11 Clos Hendre, Llandaf CF5 2HT.** *Dyw hi byth yn rhy gynnar* **a rhaid i'r defnydd fod yn ein dwylo fan bella ERBYN YR 8fed O BOB MIS. Dim ond rhywbeth eithriadol iawn a ddylai fod yn hwyrach, hyd at yr 15fed o'r mis.**

**Os am roi pwt o newyddion ar unwaith, ffoniwch un o'r canlynol yn ddi-oed:**

**Shân Emlyn — 751469**
**Gwyn Lewis Davies — 756882**
**E. Gunston Jones — 499469**
**T. Raymond Edwards — 563588**

**Os gellwch deipio'ch erthygl, stori, etc., neu ei chael wedi'i theipio, bydd yn help mawr iawn.**

# O'R POST

ANNWYL OLYGYDD,

Bydd y Gyngres Geltaidd yn cyfarfod eleni yn Iwerddon, o 28 Gorffennaf hyd 2 Awst 1980. Cynhelir y cyfarfodydd yng Ngholeg Hyfforddi St. Padrig, Drumcondra, Dulyn.

Thema'r Gyngres fydd "The Living Flame in our Land today", (Ni ryfygaf ei gyfieithu) a chost yr wythnos, llety, darlithiau a chyngherddau etc. fydd £48, gyda thâl bychan ychwanegol am y gwibdeithiau. Mae cangen Iwerddon yn ceisio cael cyfleusterau gwersyllu a gobeithiaf dderbyn gwybodaeth am hyn yn fuan.

Yn gywir,
Mary Ellis,
ysg. Cangen Cymru,
4 Maes Laura, Aberystwyth.
(0970) 617171

# At bob hanesydd lleol

Mae Adran Efrydiau Allanol, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, a'r Amgueddfa Werin, Sain Ffagan yn cyd-drefnu cwrs preswyl ymarferol i hyfforddi pobl sydd â diddordeb mewn casglu a chofnodi hanes a thraddodiadau llafar. Mae tair elfen yn y cwrs, sef:

a) Darlithiau ar agweddau hanes llafar a thechnegau casglu a recordio'r deunydd.

b) Sesiynau ymarferol yn recordio unigolion yn y maes. Trefnir fod y gwaith ymarferol yn cael ei wneud gyda thrigolion Dyffryn Ogwen.

c) Cylchoedd trafod pryd y beirniedir y gwaith ymarferol o safbwynt techneg a chynnwys gan arbenigwyr o'r Amgueddfa Werin.

Yr arbenigwyr sy'n cynnal y cwrs yw Trefor Owen, Vincent Phillips, a Robin Gwyndaf o'r Amgueddfa Werin, a John Elwyn Hughes o Fethesda.

Cynhelir y cwrs yn Neuadd Môn, Coleg y Normal, Bangor, o 23ain hyd 27ain o Fai, 1980. Ceir manylion pellach am y cwrs a'i gynnwys gan y Cyfarwyddwr, Adran Efrydiau Allanol, C.P.G.C., Bangor. Bangor 51151 Est. 494.

# NEWYDDION CWM RHYMNI

**Mae rhai o'r bobl y soniwyd amdanynt y tro diwethaf yn mynnu dod i'r golofn y mis hwn eto! Cafwyd teyrnged arall i Mrs Lily Richards, Caerffili, y tro hwn yn Y Cymro. Daeth y gyfrol hardd 'Y Flodeugerdd Delynegion' allan o'r wasg adeg y Nadolig, a mae gan y Parchedig Gwilym Morris, Caerffili, delyneg ynddi, sef yr un a oedd yn gyd-fuddugol yn y Genedlaethol yn Fflint, 1969. Yn y Western Mail, 26 Ionawr, cafwyd adolygiad byr ar drydedd gyfrol Walter Haydn Davies, Bargoed, 'Blithe Ones' (Alun Brooks, Crown Street, Port Talbot, £3). Mae Vicki Rawlings, Bargoed, wedi ei rhestru ymhlith prif chwaraewyr y flwyddyn gan y Western Mail i helpu y darllenwyr i ddewis y gorau un am y llynedd. Nid hi yw'r unig un sy wedi dod â chlod i 'Fyd y Bêl' yn y Cwm. Mae gennym ni ychydig o afael ar y bocsiwr Johnny Owen hefyd. Onid yng Nghefn Hengoed mae ei hyfforddwr yn byw? Yn Nelson mae Heddwyn Taylor, hyrwyddwr ei ornestau yn trigo. Mae Johnny ei hunan wedi chwysu chwartiau wrth ymarfer yn Nhredegar Newydd. Mae Clwb Rygbi Bedwas, clwb ail-ddosbarth, i'w longyfarch am wneud mor dda yng nghwpan yr Undeb. Byw mewn gobaith y byddant yn llorio y Cewri o Abertawe, o'r dosbarth cyntaf, yn y rownd nesaf!**

Mae eraill wedi bod yn y newyddion hefyd. Darlledwyd "Llun ar y Radio", un olaf 1979, o Neuadd yr Ysgol Gymraeg yng Nghaerffili. Cadwodd Côr Plant yr Ysgol gwmni i'r Diliau a'r adroddwr Eryl Roberts, a sgwrsiodd Peter Hughes Griffiths, arweinydd y rhaglen â Mrs Lily Richards, Mrs Moyra Davies, Senghennydd, a Dafydd Islwyn, Bargoed. Ar 13 Ionawr pan ddarlledwyd "Dewch am Dro" o dre Rhymni, treuliodd Alun Williams ryw orig yng nghwmni 'Marchogion Dewi Sant' y dre. Ar "Heddiw", holwyd Swyddog Cyhoeddusrwydd 'Mudiad Sosialaidd Gweriniaethol Cymru'. Ef ar un cyfnod oedd un o genedlaetholwyr mwyaf brwd Nelson. Fel dysgwyr yr iaith, croesodd y bont flynyddoedd yn ôl. Cododd gwallt fy mhen un noson wrth wrando ar newyddion 'Heddiw' a chlywed y darllenwr yn galw Ystrad Mynach yn bentref! A minnau yn gynharach y diwrnod hwnnw wedi ei rhestru yn un o bedair tref bwysig y Cwm!

Mae gan Mathonwy Hughes yn ei gyfrol 'Creifion', ei drydedd gyfrol o farddoniaeth, gerdd, 'Tair Croes'. Mae gennym ni yng Nghwm Rhymni hawl ar y gerdd hon oherwydd ym Margoed y pregethwyd y bregeth sy'n gefndir i'r gerdd bedair awr ar hugain cyn i'r prifardd o Ddinbych ei chlywed yn Nyffryn Clwyd.

Yn ystod y saith mlynedd diwethaf mae yna ddeugain a phump o bapurau bro (heb gyfri 'Ninnau', papur bro Cymry Gogledd America) wedi codi yng Nghymru. Y pymthegfed i ymddangos oedd Eco'r Wyddfa, papur bro Llanberis a'r Cylch. Yn rhifyn Rhagfyr y llynedd ceir atgofion am Gôr Merched Llanberis, côr a fu'n cystadlu'n gyson yn y Genedlaethol ar ddechrau pumdegau y ganrif hon. Yn y Genedlaethol enwog yng Nghaerffili yn 1950 daethant yn ail i'r côr lleol. Tybed a fu i'r disgwyl pryderus mewn ysgol leol, a'r tynnu coes yno, am rai o aelodau'r Côr i ddychwelyd o Noson Lawen yn y castell effeithio ar eu canu? Ymhen dwy flynedd yn Aberystwyth, ail oeddynt eto ond trydydd oedd Caerffili. Ydy hanes Côr Merched Caerffili ar gôf a chadw fel un Llanberis? 'Doedd yna ddim llun ohonynt ar gael ar gyfer y gyfrol "Old Caerffili and District in Photographs"?

Ond prif bwnc siarad y Cwm yn ystod yr wythnosau diwethaf oedd Pwyllgor Addysg Canol Morgannwg? Mae Ysgol Gyfun Ddwyieithog Cwm Rhymni yn bendant ar y ffordd nawr i gael ei sefydlu ac fe newidiodd y Pwyllgor Addysg ei feddwl ynglŷn â chodi coblyn o bris am gludo plant i'r ysgolion dwyieithog a rhai enwadol. Bu yna gryn bwyso ar yr aelodau yn gyhoeddus a thu ôl i'r llenni gwleidyddol i ail-ystyried eu penderfyniad gwirion.

Da o beth fuasai i ni gael cyfarfod cyhoeddus eto i ni gael gwybod beth sy'n digwydd draw yn Aberbargoed.

Dafydd Islwyn
(Bargoed 830994)



*Llun: Teledu Harlech*

**Huw Davies, a benodwyd yn Rheolwr Rhaglenni Teledu Harlech yn ddiweddar, ac yn awr yn un o Gyfarwyddwyr y Cwmni. Ein llongyfarchion gwresog iddo! Graddiodd Mr Davies yn Rhydychen lle bu'n aelod o'r Gymdeithas Ddrama a'r Clwb Theatr Arbrofol. Bu'n Gyhyrchydd ac yn actiwr, ac y mae'n fab i Mr William Davies, cyn-brifathro Ysgol Llangynog, nawr o'r Tyllgoed, Caerdydd.**

MYM

Er gwaethaf yr ansicrwydd di-bendraw ynglŷn â dilyniant i'n hysgolion cynradd ni, rydym yn dal i gadw diddordeb fel Mudiad, a chroesawn, felly, agor cylch meithrin arall yn Llandaf yn y prynhawnau. Ffarweliwn â Gaynor Walter Jones cyn-athrawes yr Ysgol Feithrin yn Llandaf a diolchwn yn fawr iawn iddi am ei gwaith caled tra bu yn arwain y cylch. Wrth ffarwelio â Gaynor, croesawn Diana Bianci yn athrawes i gylch Meithrin y bore a'r prynhawn, a dymunwn yn dda iddi yn yr yrfa.

Yn ogystal â Llandaf mae cylch meithrin newydd ar y gweill yn ardal Rhŵs hefyd. Os hoffech fanylion am y naill neu'r llall, ffoniwch ataf fi, Caerdydd 757514.

Os gwyddoch am unrhyw un â diddordeb mewn anfon eu plant i gylch meithrin Cymraeg yn ardaloedd Thornhill, Danescourt neu Sully byddwn yn falch o glywed oddiwrthynt. Byddwn hefyd yn croesawu cynigiadau i helpu cenhadu yn yr ardaloedd yma — os oes gennych ychydig o oriau sbâr!!

Chwi gofiwch yr Ŵyl Feithrin llynedd — y râs balwns yn Heol y Frenhines, yr ymgyrch beintio a'r arddangosfa yn Chapter, a'r disco yng nglwb y Trydan? Wel, gwelwn ein hunain ar drothwy Gŵyl Feithrin arall — Mai 12 fed tan 17eg — ac edrychwn ymlaen i ragori ar Ŵyl y llynedd gyda mwy o weithgareddau, adloniant, arddangosfeydd ac ati. Bydd gwybodaeth fanylach yn rhifyn nesaf y Dinesydd.

**O.N.** Hoffwn hefyd dynnu eich sylw at gyhoeddiadau y Mudiad. Bargeinion heb os!!!

Avril Jones, Swyddog Datblygu.

Anfonwch eitemau i'r Calendr at Mallt Anderson, 158, Ffordd Ddwyreiniol y Llyn, Parc y Rhath (Tel 753695), gydag enwau, dyddiad ac amser, etc.

**Carai Pwyllgor y Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol.**

# COLOFN
## Shân Emlyn

Ym mis Mawrth fe ddisgwylir i un at droi Dewi Sant ac i son yn ymfflamychol am wlatgarwch a'r iaith. Er bod cyflwr yr iaith yn bwn ar ein hysgwyddau a'r baich yn trymhau o flwyddyn i flwyddyn, rwyf am ymatal rhag trafod a datgan barn ar y "Gymru sydd ohoni".

Yn syml, carwn dalu teyrnged fechan i ffrind a gollais yn ystod y mis yma. Soniais amdano eisoes yn y golofn hon a chwith yw meddwl ei fod wedi ein gadael. Un o'm ffrindiau annwyl draw ym Mhatagonia bell oedd Egrwn Williams. Gŵr a garai ei wlad enedigol, sef Ariannin, ond a oedd hefyd yn ymfalchïo yn ei dras ac yn arbennig yn yr iaith Gymraeg. Hanai o deulu Aaron Jenkins, merthyr cynta'r Wladfa. Ef a'i wraig a fu'n gyfrifol am ddatrys problem dyfrhau y Dyffryn trwy greu rhwydwaith o ffosydd bychain. Gyda balchder y soniai Egrwn am y cysylltiad yma ac fe'm tywysodd i'r fynwent i ddangos eu bedd imi. Prin iawn fu addysg yn Sbaeneg heb sôn am y Gymraeg; ond ysgrifennai lythyr ataf yn gyson a hynny mewn Cymraeg cyhyrog a phob brawddeg yn dynodi ei ymlyniad at Gymru. Bum mlynedd yn ôl gwireddwyd ei freuddwyd pan dreuliodd fis yng Nghymru. Gwirionai at y wlad a'i glesni a chafodd flas eithriadol ar yr Eisteddfod Genedlaethol. Tra yma dotiai at blant bach yn siarad Cymraeg — profiad prin yn Y Wladfa bellach.

Ond ym Mhatagonia y cefais i fwynhau ei gwmni fwya'. Ar y ddau achlysur y bûm yno roedd Egrwn efo ni gydol y dydd ble bynnag yr aem; tywysai ni o gwmpas y wlad gan dynnu ein sylw at hyn a'r llall a rhoi inni gefndir a hanesion difyr.

Bob bore wrth adael y bwrdd brecwast yn y gwesty gwelem Egrwn yn croesi'r stryd i ddod atom. Rwyn siwr bod ei natur garedig yn ei wneud yn awyddus i'n helpu i weld cymaint ag oedd modd inni ar ein tro i'r Wladfa. Ond rwyn siwr bod yna reswm arall pam y glynai mor glos atom. Awchai am sgwrs efo pobol o'r "Hen Wlad" a manteisiai ar bob munud o'n harhosiad. Bu ei iechyd yn fregus am flynyddoedd; ei frest yn gaeth ac ymladdai am ei anadl.

Treuliais bnawn ar ei aelwyd a thynnai bob un o'i drysorau a chysylltiad â Chymru i'w dangos imi, yn llyfrau, lluniau a llythyrau. Darllenai'n helaeth ac fe hoffai fod wedi cael mwy o addysg ond fe lwyddodd i'w ddiwyllio ei hun. Roedd yn gefn i fywyd Cymraeg Dyffryn Camwy a chymerai ddiddordeb mawr yn Eisteddfod y Wladdfa. Bydd bwlch mawr ar ei ôl.

Dyfynnaf o'i lythyr ola imi. "Bu'r eisteddfod yn llwyddiannus eleni eto, credaf fod ysbryd yr Eisteddfod wedi egino ac yn brysur yn gwreiddio drwy'r holl diriogaeth a chorau yn teithio bellder ffordd. P'run ai cedwir hi yn Gymraeg, neu yn ddwyieithog, neu yn Ysbaeneg sydd beth arall." Pur anobeithiol oedd Egrwn am ddyfodol yr iaith yn y Wladfa a gallai, er yn drist, dderbyn hynny. Fe gofiaf yn annwyl am Egrwn am lawer i sgwrs ddifyr ond yn arbennig am ei neges ddeifiol a pherthnasol i ni yng Nghymru — "Cofiwch chi, Shân, marw mewn gwlad estron y mae'r Gymraeg yma; gwyliwch chi yng Nghymru adael iddi farw yn ei gwlad ei hun."


**GWESTY LLETY CYMRO**

143 HEOL YR EGLWYS GADEIRIOL
CAERDYDD. FFÔN 399659

**GWELY A BRECWAST**
**BWYD A GWIN DA**

TRWYDDED PRESWYL


# Y polisi iaith newydd

## Barn UCAC (De Morgannwg)

**Wedi iddi dderbyn adroddiad o'r gweithgor ar ddysgu Cymraeg yn y sir a gyfarfu ym Medi 1979 fe benderfynodd Cymdeithas De Morgannwg o Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) ar y canlynol: Y dylid cadw at Bolisi'r Iaith Gymraeg fel y'i derbyniwyd gan y Cyngor yn 1974 fel y brif ddogfen ar y testun hwn.**

Fe gynigiodd y Gymdeithas nifer o argymhellion sy'n ymwneud â'r polisi newydd:

1. Fe holwyd rhieni holl ysgolion cynradd nôl yn 1973 ac fe ddarganfuwyd yr adeg honno fod cefnogaeth unfrydol bron i ddysgu Cymraeg ar sail Polisi 1974. Does dim tystiolaeth fod amgylchiadau cymdeithasol yn Ne Morgannwg yn y blynyddoedd wedi hynny wedi newid cymaint fel ag i beri newid sylweddol yn y ddogfen. Mae'n destun gofid mawr fod athrawon cydwybodol yn cael eu hysgwyd yn ysbeidiol gan y posibilrwydd o ddiwygio'r polisi sy'n ymwneud â'r pynciau a ddysgir ganddyn nhw.
2. Rydym felly yn ailddatgan ein crêd fod yr iaith Gymraeg yn rhan hanfodol o gwricwlwm yr Ysgolion Cynradd a'r ddwy flynedd gyntaf yn yr ysgolion Uwchradd yn Ne Morgannwg.
3. Prun bynnag, fe wnaethom gyfaddawd: sef y dylai 20% o'r plant llai galluog sydd ag angen addysg adfer arnynt gael yr hawl i beidio â chael gwersi Cymraeg. Byddai'r rhain yn ychwanegol i'r plant hynny a gafodd yr hawl i dynnu allan o wersi Cymraeg o dan gymal 2, polisi 1974.
4. Fe grêd y Gymdeithas fod cynnwys hawl y rhieni i ddewis dan gymal 2 o'r hen bolisi yn benderfyniad cyfleus. Fe ganiata hyn i rieni dynnu eu plant allan yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd wedi iddynt ymgynghori â'r prifathro. Fe ystyrir hyn yn ddiogelwch digonol i'r prifathro a'r rhieni. Mae'r cyfleustra hwn yn osgoi yr angen i rieni ymgysylltu â swyddogion, llai fyth â chynghorwyr, er mwyn tynnu eu plant allan o'r rhan arbennig hon o'u haddysg. Byddem yn disgwyl y ddefnyddid y dewis hwn dim ond pan mae'r plentyn yn cychwyn ar ei yrfa yn yr ysgol gynradd a'i yrfa yn yr ysgol uwchradd. Byddai ymestyn y cyfleustra hwn yn rhwym o danseilio effeithiolrwydd trefn a dysgu o fewn yr ysgol.

Mae'r polisi newydd yn esgor ar nifer o broblemau: yn gyntaf, mae'n amwys a niwlog ac oherwydd hynny mae'n rhoi rhwydd hynt i brifathrawon yn yr ysgol uwchradd dynnu allan yn gyfangwbl o ddysgu Cymraeg yn eu hysgolion. Yr ogystal â hyn dyw'r polisi newydd ddim yn gorfodi'r prifathrawon i benodi arbenigwyr; digon fydd cael athro neu athrawon Cymraeg eu hiaith ar eu staffiau sy'n rhugl yn yr iaith lafar ond nad ydynt o reidrwydd wedi eu hyfforddi i ddysgu'r iaith o gwbl.

Mae goblygiad dyfnach i'r polisi hefyd! Paham mae'r Cyngor Sir yn cyfyngu ei sylw yn gyfangwbl i'r iaith Gymraeg? Paham nad yw pynciau eraill yn cael eu hystyried? Canlyniad i'r polisi hwn fydd rhoi'r cyfrifoldeb am gael gwersi Cymraeg yn gyfangwbl ar ysgwyddau'r rhieni. Gallwn ddweud felly fod yr awdurdod yn cefnu'n llwyr ar y cyfrifoldeb sydd arno o ddarparu hyffoddiant Gymraeg i plant De Morgannwg. Yn ogystal â hyn fe fydd gweithredu'r polisi yn creu llu o broblemau gweinyddol.

Mae i'r Gymraeg le naturiol a hanfodol yn y cwricwlwm — mae'n gofyn am gefnogaeth yr holl athrawon, gan gynnwys y prifathro, i waith yr athrawon Cymraeg yn eu brwydr i hybu'r iaith yng nghanol un o ardaloedd Seisnicaf Cymru. Os oes angen polisi newydd fe fyddem yn disgwyl cael llais llawer cryfach yn y gwaith o'i lunio, oherwydd hyd yma dim ond esgus llais mae'r Gymdeithas wedi'i gael ac mae'r Awdurdod Addysg yn gwrthod cysylltu â ni ymhellach.

# GENEDIGAETHAU

* I Nia Waddington a Dai ganed Sion Dafydd, eu hail blentyn.

* I Sharon Morgan a Julian, ganed mab, Steffan Ifan.

* I Nan Humphreys a Siôn, ganed merch, Gwennan Mair, chwaer fach i Siwan.

* I Angharad Harding ac Alwyn, ganed mab, Gwion Rhys. Llongyfarchiadau i'r Mamau a'r Tadau oll, a chroeso i'r newydd ddyfodiaid.

# BRWYDR BRYNTAF

**Go brin y gall unrhyw un sydd â diddordeb yn natblygiad addysg Gymraeg yn Ne Morgannwg fod yn hapus â'r datblygiadau diweddaraf yn y saga ddi-ddiwedd hon. Mae swyddogion Cymdeithas Rhieni Bryntaf wedi brwydro'n galed dros ddatblygiad naturiol sy wedi ei addo i Gaerdydd ers blynyddoedd bellach.**

Mewn cyfarfod ddiwedd Ionawr o Gyngor Sir De Morgannwg cytunwyd rhannu Bryntaf yn dair ysgol ym Medi 1980 neu mor fuan â phosibl ar ôl hyn, a chafwyd hefyd addewid am bedwaredd ysgol mor fuan â phosibl yn y dyfodol, os bydd y Swyddfa Gymreig yn rhoi arian i godi ysgol newydd. Does dim gobaith o gwbl gweld un ysgol ychwanegol fis Medi nesaf a thra bo Marged Togwellt yn rheoli go brin y gwellir arian yn dod o'r Swyddfa Gymreig.

Pan ddaw y tair ysgol ychwanegol yma, ni fyddant yn ddigon i dderbyn y plant i gyd. Felly mae'n edrych yn debyg fod y sefyllfa yn mis Medi yn mynd i fod yn echrydus. Tybed a oes angen ein hargyhoeddi ymhellach bod eisiau i awdurdod addysg De Morgannwg ddangos llawer mwy o ddiddordeb mewn datblygu addysg Gymraeg a'u bod, drwy ohirio penderfyniadau o un mis i'r llall fel hyn yn dreth ar frwdfrydedd llawer o rieni sy am gael addysg Gymraeg i'w plant?
Deëllir bod ysgol newydd sbon i'w chodi yn Llaneirwg yn y flwyddyn 1980/81, a honno o fewn dwy filltir i dair ysgol a digon o le i 800 o blant. Felly mae hi'n amlwg ddigon fod yna frwydr galed o flaen Cymdeithas Rhieni Bryntaf, os ydynt am weld ateb boddhaol i'w gobeithion. Yn wir nid brwydr i'r gymdeithas honno fydd hi bellach ond i bob Cymro yma yn y brif-ddinas. Rhaid cwyno yn gyson i'n haelodau seneddol a'n cynghorwyr lleol, nid yn unig fel unigolion ond hefyd fel Cymdeithasau Cymraeg, i dangos yn glir iddynt ein bod i gyd yn hawlio addysg Gymraeg i'n plant a'n bod yn hollol benderfynol o gael y pedair ysgol yna ym mis Medi.

Yr hyn sy'n ofid mawr i ni yw a allwn ddangos ein bod yn hollol unol a chadarn yn y mater hwn. Oes digon o argyhoeddiad yn perthyn i ni i frwydro tan y byddwn yn ennill? Roedd Bryntaf i fod i'w rhannu yn Medi 1976, yn bendant. Ond dyma ni yn gweld Medi 1980, ar ddod, a fawr o obaith setlo'r broblem.




# Rhybuddion Arglwyddi

**Mewn araith yn Nhŷ'r Arglwyddi yn y ddadl gyntaf yn y tŷ hwnnw ar yr argyfwng sydd ohoni yng Nghymru, rhybuddiodd yr Arglwydd Brooks o Dremorfa na ellid gorddweud beth fyddai maint y drychineb a allai lethu Cymru os eir ymlaen â'r cynllun i ddiddymu swyddi yn y diwydiannau dur a glo.**

"Gŵyr pawb ohonom am y toriadau mewn gwariant cyhoeddus," meddai. "Fe wyddom am y cyni sy'n wynebu'r awdurdodau lleol. Gwyddom y bydd i gyfraddau llog uchel a chostau uchel arwystlo (cael morgaes) effeithio ar Brydain oll. Ond bydd effaith cynyddol y polisiau hyn ar wlad fel Cymru yn drychinebus." Gallai'r nifer o swyddi a gollid yng Nghymru o ganlyniad i'r toriadau fod yn fwy na 50,000 a nifer y diwaith dros 130,000, neu 13 y cant.

"Os caeir Llanwern a Phorth Talbot lle y mae mwy na thraean o'r offer modern i wneud dur, bydd yn gam peryglus tuag at ddinistrio diwydiant yn Mhrydain," meddai'r Arglwydd Brooks.

"Byddai datblygiad o'r math yma," aeth ymlaen, "yn peryglu rhagolygon Leyland sydd eisoes yn wan, a gallai meithiant BL, gyda cholledion mewn swyddi o lawer mwy na 100,000 ganu cnul rhan fawr iawn o ddiwydiant peirianneg Prydain."

Yn ei araith gyntaf ef yn Nhŷ'r Arglwyddi, dywedodd yr Arglwydd Hooson fod anobaith led-led Cymru. "Fe fyddid yn dangos diffyg teimladrwydd," meddai, "pe na synhwyrid yr ymdeimlad o ofid, a hyd yn oed anobaith sy'n gyffredin ar hyn o bryd."

# Beth sy wedi bod?

Ar Ionawr 19 1980, cyflwynwyd y ddrama WRTH AROS GODOT yn Athrofa Addysg Uwch De Morgannwg gan Gwmni Drama'r Dewin, Caerfyrddin, gyda T. James Jones yn cynhyrchu. Cafwyd perfformiad caboledig o'r ddrama anodd hon, perfformiad a roes gryn bleser i'r ychydig a ddaeth yno. Ond dealla'r Dinesydd fod rhyw gêm neu'i gilydd yn cael ei chwarae yn y stadiwm genedlaethol y pnawn hwnnw ac y gallai hynny fod wedi milwrio yn erbyn y perfformiad.

Ar Ionawr 20 1980, daeth ieuenctid Yr Urdd i neuadd fawr Y Sherman, o dan gyfarwyddyd Emyr Edwards i roi cyflwyniad grymus o'r opera roc, Y Geni. Roedd y lle'n orlawn a'r gynulleidfa wedi cael noson i'w chofio. Edrychir ymlaen at wledd y flwyddyn nesaf eto.


Iau, Ionawr 31, Chwefror 1 a 2. Fuoch chi yn y Cabidyldy (Chapter)? Naddo? Wel, chi sydd ar eich colled achos daeth Cwmni Cymunedol yr holl ffordd o Wynedd i'n diddori gyda'u cynhyrchiad gwefreiddiol o BARGEN, perfformiad theatrig a luniwyd gan y cwmni eu hunain, ac un â graen caboledig arno. Roedd iddo gyswllt agos â'r ddinas achos merch y golygydd oedd yn gyfrifol am ochr gerddorol y siew. Wrth ddiolch i Ms Gilly Adams a swyddogion Y Cabidyldy am drefnu'r perfformiadau, mawr hyderwn na fydd y cwmni talentog hwn yn anghofio amdanom wrth deithio o gwmpas Eryri.

Chwefror y pumed, yng ngholeg Cyncoed, cyfarfu'r grŵp darllen, o dan arweiniad Ms Elen Ogwen. Bernard Evans oedd wrthi'r tro hwn — yn rhoi ei farn ar nofel Saesneg boblogaidd gan blant. Bu sgwrsio brwd ar ôl ei sylwadau.

Chwefror 9 1980. Oeddech chi yn neuadd ysgol Radur y noson honno? Nag oeddech? Colled eto, felly — achos yno yn perfformio Wncwl Ben (John Griffiths) yr oedd Cwmni Drama Heol y Crwys, gyda Gareth Lloyd Williams yn gynhyrchydd. Trem yn ôl fu'r perfformiad yma i'r rhai a lenwai'r neuadd. Drama hen ffasiwn a oedd yn boblogaidd iawn yn ei chyfnod — a'r cwmni'n amlwg yn ei fwynhau ei hun wrth fynd trwy eu pethau — a'r gynulleidfa hefyd wrth ei bodd. Noson hwyliog a diddan. A'r unig beth a amharai ar y noson, efallai, oedd y ffaith i'r awdur, a fu'n gweithio am flynyddoedd gyda'r BBC, farw rai dyddiau cyn hynny. Edrychwn ymlaen yn awr at y perfformiad nesaf.

# CROESAIR Y DINESYDD Rhif 2

*gan ap Lewsyn*



AR DRAWS

1. Gwnaeth ei rhuad i mi stwrio a chael hyd i f'anghenion. (7)
4. Bydd cyffelybu os daw'r ha' i ganol Cymru. (7)
8. Mae dwy A a deg Er yn y wyddor hon. (7)
9. Pedr a Leah yn colli pwff wrth gyflawni gorchwyl y gwerthwr crwydrol. (7)
11. Bu Gwen yn yr ardd flodau yn casglu apill. (6)
12. Ysgrifennodd bwt yn ôl at ei daid o'n syth. (6)
13. Myfi a hi. (3,3)
14. Aderyn sy'n curo, a churiad. (treigledig). (6)
17. "Mor ------ yw y rhai, trwy ffydd, Sy'n mynd o blith y byw" (I.G.G.) (6)
20. Ydwyf, ond nid wyf dan do yn llafur y De. (2)
21. Coed sy'n colli? (3)
22. Cenhedlaeth a chronglwyd. (2)
23. Mor ddifrifol yw dy des 'w, ar wasgar. (6)
25. Bu ap hwn yn un o'r gelynion ar ffordd y Pererin. Na! Hwn oedd gelyn Welsli, yn cario gwifrau. (6)
27. Cyfnod oer ymysg argoelion o'r gwanwyn. (5)
28. A minnau yn digwydd taro i mewn i weld y siopwr, thalwyd mo'r bil ond yn rhannol. (3,3)
29. Mae'n flin ganddo ei fod, ynghanol y cyfan, wedi farneisio'r drws. (6)
30. Dug i rym gyfansoddiad newydd yn diraddio'r bobl gyffredin. (7)
31. Cawl yfory? (7)
32. Rhai di-weld yw Dei a Llion. (7)
33. Mae hi'n cael cyflog am ad-drefnu llenni o'i gwirfodd. (7)

I LAWR

1. "Yn llifo megis afon." (7)
2. Trawsfeddianwyr yr hen lys, yn ôl y bardd. . . . (5,2,5,3)
3. . . . . ond yma, sôn am adfeddiannu. (7)
5. Ymhob pen mae? (7)
6. Camp y ci defaid, yn ôl Thomas Richards, Llanfrothen. (3,1,5,6)
7. Un sy'n ubain o gwmpas naw, ond yn fwy soniarus. (7)
10. Cant! Llu dygn yn dod ynghyd. (9)
15. Un a wellhawyd, ond mae llawer mwy yno. (3)
16. Llinyn o gotwm, llin neu wlan mewn pentre deheuol. (3)
18. Er hynny. (3)
19. Draw acw mae ei getyn o. (3)
23. Yr hyn a wnaeth Robyn Goch yn ysmala. (7)
24. Fe wnaeth y Protestaniaid a'r Methodistiaid hyn yn eu tro. (7)
25. Fe gafwyd epa prin yn clebran yn drefnus. (7)
26. Y Normaniaid, neu wŷr Sgandinafia, neu drigolion Gwynedd? (7)

---

Datrysiad yn y rhifyn nesaf. Tocyn llyfrau (£2) am yr ateb cywir cyntaf erbyn 22 Ebrill. Anfoner at y Gol.

---

DATRYSIAD CROESAIR Y DINESYDD RHIF 1

AR DRAWS

1. Tyndra 5. Cywaith 8. Gem 9. Tal 12. Iddo 13. Iachau 14. Afiaith 15. Awn 16. Bydol 17. Arabedd 19. Bord 20. Rycnu 23. Twrog 25. Ebill 28. Cyfaill 29. Didoll 31. Bon 32. Ffrewyll 33. Godro 34. Eos 36. Tew 37. Ddôn 38. Tylino 39. Malltod

I LAWR

1. Te 2. Ymddiddanwr 3. Dallineb 4. Ati 5. Clo 6. Whilber 7. Iechyd 8. Gwamal 10. Addewid 11. Hualau 18. Ddoe 21. Cyfarwyddo 22. Cic 23. Tadogi 24. Galluogi 25. Eco ddoe 26. Llyfrgell 27. Ellyllon 30. Dodwy 34. Eto 35. Swm

# Mrs Lily Richards

Eisoes cafodd athrawon a disgyblion Ysgol Rhydfelen eu cyfle i anrhegu Mrs Lily Richards ar achlysur ei hymddeoliad. Ar Chwefror 9, daeth tro'r rhieni a chyn-ddisgyblion i dalu teyrnged iddi.

Yn rhan gyntaf y noson, rhoddodd nifer o gyn-ddisgyblion eu diolch personol i Mrs Richards mewn gwledd o gerddoriaeth, yn lleisiol ac offerynnol, yn glasurol, yn ganu gwerin, cerdd dant, a chanu ysgafn. Soniodd nifer ohonynt am eu dyled i Mrs Richards am ennyn a datblygu eu diddordeb mewn cerddoriaeth.

Talwyd teyrnged pellach gan Ann Hopcyn, cyn ddisgybl, gan y Prifathro, a chadeirydd y Gymdeithas Rhieni, y Parch. Cyril Llywelyn. Cyflwynwyd set deledu lliw i Mr a Mrs Richards ar ran y rhieni a'r cyn-rieni — gydag anogaeth i aros yn y tŷ ar ambell noswaith i'w wylio! Yr oedd ymateb Mrs Richards yn gwbl nodweddiadol ohoni — gyda'i gostyngeiddrwydd arferol, dywedodd mai ei braint **hithau** a fu dysgu plant mor ddisglair a gweithgar.

Gorffennwyd y noson gyda Bwffe a baratowyd gan Dudley Newberry, cyn-ddisgybl sydd eisoes yn llwyddiannus ym myd arlwyaeth, a hyfryd oedd gweld cynifer wedi dod ynghyd i ddangos eu gwerthfawrogiad o waith ac ymroddiad cwbl unigryw Mrs Lily Richards. Dymunwn iddi a'i phriod ymddeoliad hir a dedwydd.



# Gwrachod yn Chapter

**Mae'n argoeli'n dda ar y ddrama Gymraeg ym 1980 a barnu wrth yr arlwy o berfformiadau a gawsom yng Nghaerdydd eleni eisoes, a hithau ond yn ddechrau mis Mawrth. Ar ôl ymweliadau gan Gwmni Drama'r Dewin, gyda'u cynhyrchiad gwreiddiol a chyffrous o *Wrth Aros Godot*, a Theatr Bara Caws â *Bargen* a lenwodd theatr Canolfan Chapter am dair noson yn olynol (ac addewir y bydd y cwmni hwn yn dychwelyd i Gaerdydd yn fuan i gyflwyno eu sioe newydd, *Hwyliau'n Codi*), torrwyd cwys newydd ym maes y ddrama Gymraeg gydag ymweliad Cwmni Cyfrif Tri â Chapter ddiwedd mis Chwefror.**

Grŵp hynod ddawnus o dri pherfformiwr yw'r cwmni newydd hwn sef Jeremy Turner, Christine Watkins a Sara Williams, cynnyrch Adran Ddrama Coleg Aberystwyth, pwerdy dramatig newydd Cymru. Fe'u gwelwyd yng nghynhyrchiad Emily Davies o *Priodas Waed* Lorca yn Eisteddfod Caernarfon a hefyd yn nehongliad gwefreiddiol Labordy Theatr Caerdydd o chwedl Blodeuwedd ar faes y Brifwyl (gweler *Dinesydd* mis Medi 1979).

Gan dynnu ar eu profiad o weithio gyda'r Labordy, lluniodd y cwmni ddarn o theatr arbrofol yn Gymraeg ar y thema "Gwrachod y Môr". Drwy gydblethu casgliad o ddelweddau o'r môr â rhai o chwedlau a choelion y Celtiaid ynglŷn â gwrachod, llwyddodd y cwmni i greu'r ymdeimlad deublyg o gyfaredd a bygythiad a ddynodir gan y creaduriaid hyn ac adlewyrchu deuoliaeth ein teimladau ninnau tuag atynt, atyniad ac atgasedd, chwilfrydedd ac ofn.

Cyfleid llawer o'r deunydd yn ddi-eiriau, drwy gelfyddyd corff ac wyneb yr actorion, ond yr oedd y deunydd llafar yn gyfoethog hefyd gyda'r geiriau weithiau'n ystyrlon, weithiau'n agosach at effeithiau sain, yn cael eu cyflwyno mewn modd defodol, ail-adroddol i greu byd o hanner-atgofion llesmeiriol y doi'r düwch diamgyffred i'w drywanu ar brydiau. Ac yn effeithiol iawn, ceid fflachiadau o ddoniolwch yma ac acw, i greu cyferbyniad mwy trawiadol fyth.

Trawiadol hefyd oedd rhai o ddelweddau gweledol y cwmni: geni'r creadur môr o bentwr mawr o fasglau wyau; y ficer yn marchogaeth y tonnau ar ei geffyl môr nwydwyllt; a'r wraig yn gwingo ar y llawr, â'i dwylo'n gaeth o dan bwysau'r Beibl. Ond rhan hanfodol o lwyddiant y cyflwyniad oedd disgyblaeth y perfformwyr, eu mentrusrwydd corfforol a lleisiol a'r sylw a roddid i fanylion. Rhaid cyfaddef fod ôl straen neu nerfusrwydd yma ac acw yn rhai o'r symudiadau, ond gweithiai'r cwbl yn dda ar y cyfan. Yr oedd y gwaith gyda'r polion a'r baneri yng ngolygfa'r wylan yn gelfydd, yn adleisio'r defnydd dyfeisgar a wnaethpwyd o bolion tebyg i greu'r eryr clwyfedig yn *Blodeuwedd*.

Er mai'r un sail sydd i rai agweddau o waith y cwmni hwn â pheth o'r gwaith arbrofol Saesneg a welir yng Nghaerdydd gan gwmnïau megis Lab Caerdydd a Paupers' Carnival, nid yw'r gwaith yn ei grynswth yn ddynwaredol nac yn tarddu o'r un ffynonellau. Y mae'n tyfu'n naturiol allan o draddodiadau Cymreig a thrwy gynnig canllawiau cyfarwydd felly, y mae'n llai tebyg o ymddieithrio cynulleidfa drwy newydd-deb (yn y Gymraeg o leiaf) y ffurf. Yr hyn a gawsom gan Gwmni Cyfrif Tri yma oedd ffordd newydd o edrych ar hen bethau, ac ymgais i agor ein llygaid ninnau i weld mewn ffordd wahanol. Y mae ffurf "Gwrachod y Môr" yn rhydd: nid oes yma ymgais i adrodd stori ond, yn hytrach, ceisir creu cyfres o argraffiadau yn y gwyliwr — rhyw gynnig awgrymiadau y gall y gwyliwr ei hun eu dehongli fel y mynn.

Profiad amheuthun oedd gwylio'r darn byr, cynnil a grymus hwn gan actorion mor ifanc a chymharol ddi-brofiad. Gobeithio y cawn weld y cwmni hwn yn datblygu i ysgogi cynulleidfaoedd cysglyd Cymru sydd wedi gorfod bodoli cyhyd ar fwyd llwy (weithiau'n faethlon ond yn fynych yn ddiflas) Cwmni Theatr Cymru. Y maent yn mentro ar lwybr go newydd a dieithr yn hanes y theatr Gymraeg hyd yma ond yn ddiau y mae ganddynt gyfraniad o bwys i'w wneud.

S.A.E.

# Y Parchedig Iorwerth Hughes

Gyda gofid ac ymwybyddiaeth o golled y clywyd ar y 3ain o Ionawr am farwolaeth un arall o Weinidogion Iesu Grist, sef y Parchedig W. Iorwerth Hughes BA BD. Bregus iawn fu ei iechyd y blynyddoedd diwethaf gan ei orfodi i ymddeol yn gynt na phryd fel Gweinidog Salem, Canton a Phenuel, Y Barri.

Brodor ydoedd o'r Bala, ac un o blant Capel Llanfor. Wedi graddio yng Ngholeg y Brifysgol Bangor a Choleg Diwinyddol Aberystwyth a threulio blwyddyn olaf ei gwrs yn y Bala, ordeiniwyd ef yn 1943. Bu'n gweinidogaethu ym Mhantywyll a Chlwydyfagwyr, Dosbarth Merthyr; Resolfen; Rhyl; Treherbert a Blaenrhondda cyn dod i Salem a Phenuel yn 1969.

Daeth nifer helaeth ynghŷd i'w angladd yn Salem, Canton ac Amlosgfa Thornhill, Brynhawn Mawrth, 5ed o Chwefror.

Arweiniwyd y Gwasanaeth gan y Parchedig D. Haydn Thomas yn cael ei gynorthwyo gan y Parchedigion M.R. Mainwaring, Haydn Thomas, Ieuan Owen, Huw Jones (Y Bala), Dafydd Owen, Haydn Lewis a Raymond Williams. Roedd presenoldeb y brodyr hyn yn dyst o'u parch a'u hedmygedd ohono.

Wrth dalu teyrnged iddo, tystiodd y Parch D. Haydn Thomas a'r Parch M.R. Mainwaring i ffyddlondeb di-ildio y Parch Iorwerth Hughes i'w alwedigaeth; am ei wasanaeth clodwiw ar hyd y blynyddoedd i Eglwysi ei ofal, a'i Gyfundeb. R'oedd yn ŵr tawel, diymhongar, yn llawn hiwmor, yn gymwynaswr ac yn gyfaill mynwesol. Cyflawnodd ei waith fel Gweinidog a Bugail yn foneddigaidd ac urddasol.

Cydymdeimlwyd yn fawr iawn â Mrs Hughes a fu'n gweini'n dirion wrtho am fisoedd lawer, y merched, ynghŷd â'i chwiorydd a'i frawd, yn eu colled a'i profedigaeth lem. Melys fydd y cof am y diweddar Barchedig W. Iorwerth Hughes.

# Cwpanaid a thamaid

**Clywsom fod Bwtri'r Castell, Sain Ffagan, sef yr ystafell dê yn y Castell, yn awr yn cael ei redeg gan ddwy Gymraes o Gaerdydd, Iona Lloyd Williams a Gwenda Jones. Anfonodd "Y Dinesydd" ei gohebydd i gael gair gyda'r ddwy:**

**Y Dinesydd:** 'Rwy'n deall eich bod chwi wedi ymgymryd â rheolaeth Bwtri'r Castell yn ddiweddar. A hoffech roi ychydig o wybodaeth i ddarllenwyr "Y Dinesydd" am eich anturiaeth?

**Gwenda ac Iona:** Gwelsom gyfle i roi gwasanaeth mewn adran o'r Sefydliad Cenedlaethol pwysig hwn a oedd yn unol â'n cefndir a'n hyfforddiant addysgol. Fe'n cymhellwyd i ymgymryd â'r cyfrifoldeb gan ein hawydd i ddefnyddio'n hyfforddiant yn y dull ymarferol hwn.

**Y.D.:** A hoffech fanylu ychydig ar ddarpariaethau'r Bwtri er mwyn y cyhoedd?

**G. a I.:** Amcanwn at baratoi bwydlen Gymreig chwaethus a blasus a'r bwyd hwnnw wedi ei goginio gennym yn y Bwtri ei hun — ac fe'i hestynnir i'r cwsmeriad mewn awyrgylch cartrefol, glanwaith a Chymreig.

**Y.D.:** Os gwasanaeth Cymraeg yw hwn yn bennaf, a oes anhawster mewn dinas i gyflogi staff i'ch cynorthwyo?

**G. a I.:** Gobeithio yr ydym ddenu Cymru ifainc a chanol oed i weithio yn y Bwtri fel y cynydda y gwaith a phrysurdeb y tymor. Os oes rhywun o'ch darllenwyr a diddordeb yn y math yma o waith, p'run ai yn llawn amser neu ar y penwythnosau a'r gwyliau, byddem yn falch iawn os gwnant gysylltu ag un ohonnom, rhif ffôn: 568800 neu 613617.

**Y.D.:** A oes rhywbeth arall y carech ei ddweud am y Bwtri?

**G. a I.:** Bydd croeso i bawb a gobeithiwn weld Cymry Caerdydd a'r Fro a'r Cymoedd yn cefnogi'r anturiaeth hon. Bydd y Bwtri ar agor bob dydd, o'r Llun i'r Sadwrn, o Ebrill 1af hyd yr Hydref o ddeg y bore hyd 4.30 y prynhawn. Bydd cyfle am gwpanaid bob p'nawn Sul o'r flwyddyn rhwng 2.30 a 4.30.

Y mae'r argoelion am groeso yn rhagorol. Pob llwyddiant i'r fenter hon.

## CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys i Mrs Averil Lewis a'i theulu Glynrhosyn, Heol y Dderwen, ar golli o Mrs Lewis ei chwaer yn ddiweddar.

# MANION O'R MYNYDD BYCHAN

### Y DR. IFAN YN BWRW GOLWG DROS BETHAU YN YR YSBYTY

**Wrth whilota am gardie i'w danfon y Nadolig diwethaf fe darws y Dr. Ifan ar rywun odd yn gwerthu carde i godi elw at elusenne Tenovus. Fe brynws e lond ei restr o ffrindie o'r carde rhad, deniadol yma, a wedyn dyna ddechre meddwl, am y tro cyntaf sgetyn, beutu gwaith Tenovus.**

## TENOVUS

Achos da, fel y gŵyr pawb, yw Tenovus a lansiwyd yn y chwedege gan ddeg o wŷr busnes Cardydd, ac sydd bellach wedi casglu miliyne at bwrpase da. Ymysg y rhain y mae Sefydliad Tenovus er Ymchwil Cancr, a saif ochr wrth ochr â'r ysgolion meddygol a deintyddol yn y Mynydd Bychan. Er bod y sefydliad hwn yn swyddogol yn rhan o'r Ysgol Feddygol, fe weithiff fel arfer fel Sefydliad Ymchwil annibynnol, a nid gorweud fyse maentumio ei fod e bellach yn un o ganolfanne pwysicaf Ewrop yn ei faes, sef ymchwil i gancre'r fron a'r prostad, a pheirianwithe'r chwarenne mewnlifol sy'n effeithio arnyn nhw. Y mae gwyddonwyr Ewrop a'r byd yn ymwelwyr nid anfynych â'r Mynydd Bychan felly. Peth da yw hyn oll, mae'n debyg, a smo'r Dr. Ifan yn moyn codi sgwarnog y berthynas sydd rhyngddo a'r Iaith Gymrâg. Y mae e'n gwbod ei bod hi withe yn ddigon o bwnc llosg mewn gwledydd fel Frainc heddi a oes lle i iaith 'leiafrifol' fel y Ffrangeg mewn ymchwil ryngwladol yn y byd sy ohoni.

## TOUR DE FORCE

Bid a fo am'ny, yn fuan ar ôl prynu'r carde na, a chofio am Tenovus am y tro cyntaf ers sbel, fe gas y Dr. Ifan ei wâdd i ddarlith feddygol yn y Sefydliad Ymchwil, a felly dyna feddwl amdanyn nhw eilwaith. Athrylith o Sais ifanc, y Dr. David Horrobin, sy bellach yn benneth labordy ymchwil cancar yng Nghanada, ac a o'dd yn ymweld â'r Sefydliad i gyfnewid syniade am waith ymchwil, a draddodws y ddarlith hon. Fe ddechrüws e ar destun 'Peirianwaith Prolactin yng Nghancr y Fron' a mynd trwy'r holl ffeithie astrus ynglŷn ag ymchwil gyfoes yn y maes mor hawdd â llyncu pys, ac yna fe grwydrws e i feysydd meddygol erill, a dangos yn ddi-stwr ei fod yn feddyliwr treiddgar mewn llawer maes. Soniws am y berthynas rhwng margarin ac asprin a chancr y fron a chyflwr y croen. Soniws am fitamine a'r clwyf misol; am beirianweth biogemegol posibl i wallgofrwydd sgitsoffrenia; am rinwedde llysie fel y friallen sinieg; am lid y cwteri dagrau a diffyg y celloedd imiwnolegol. Nid yn aml y caiff y Dr. Ifan ei syfrdanu gan dour de force meddyliol ond dyma oedd un o'r adege prin hynny.

## YR HEN GLAFR

**Yn ôl i'n coed; ac ar ôl gwrando ar y Dr. Horrobin yn y Tenovus yn ôl yr âth y Dr. Ifan i'r Ysgol Feddygol i wrando ar y Dr. John Cule, meddyg teulu o Landysul yn darlithio ar hanes meddygeth. Bob tro y bydd y Dr. Ifan yn gwrando ar y Dr. Cule fe ddarganfyddiff ryw em fach newydd o wybodeth, a felly y bu hi'r tro hwn. Do'dd y Dr. Ifan nac yn gwybod nac yn poeni o ble dâth yr enw 'Pont Myrddin' (Merlin's Bridge) am yr ardal honno o Hwlffordd — hyd nes iddo glywed y Dr. Cule, hynny yw. Fe ymddengys bod Cymry'r oesodd canol yn meddwl taw un gwahanglwyfus oedd y cardotyn 'a oedd yn gornwydlyd' yn nameg y glwth goludog. Dan feddwl felly, fe ethon nhw rhagddyn i gymysgu y 'Lazarus' hwn â brawd Mair a Martha, ac wedyn, yn ôl y Dr. Cule, fe ddaeth y tri — Lazarus, Mair Magdalen a Martha — yn nawddsaint i wahangleifion yng Nghymru. A dyma sy'n esbonio yr enw ar bont Myrddin; yr oedd clafdy (i wahangleifion) yn gyfagos i'r safle yn Hwlffordd, a felly 'pont y gwahangleifion' o'dd hi. Fe ddywedid 'Magdalen' — a yngenid yn y Sisneg yn 'Maudlin' — yn lle 'leper', yn debyg efalle i'r ffordd y dywedir yn llednais heddiw 'haint benodol' yn lle 'y frech fawr'. Nid 'Merlin's Bridge' ond 'Maudlin's Bridge' felly oedd hi i ddechre.**

**Wrth son am glafdai i wahangleifion yng Nghymru yn yr oesoedd canol, fe ddangosws y Dr. Cule hefyd hen fapie i brofi bod un yng Nghardydd bryd'ny. Safai ychydig y tu fas i borth dwyreiniol y dre — sef bron iawn yn union lle mae'r Ysbyty Brenhinol heddi.**

**Y tu fâs i borth deheuol yr hen dref, os bu'r fath beth erioed, yr oedd y Dr. Ifan bwy noson yn ddiweddar. Fe âth ef â chriw o'r Mynydd Bychan i lawr i glwb y Casablanca yn y docie i wrando ar y grwp 'Jip' yn canu. Y cysylltiad rhwng 'Jip' a'r Mynydd Bychan yw Mr John Gwyn, sydd withe'n ei ddisgrifio ei hun fel gitarydd gyda'r grŵp sy'n digwydd gwneud ymchwil waedolegol yn yr ysbyty yn ei amser hamdden, a withe'r ffordd arall rownd.**

## I'R MYNYDDOEDD DRAW...

Smo'r Dr. Ifan yn debyg o wrthod unrhyw wahoddiad i fwrw Sul ym mynyddoedd y Canolbarth, a felly fe âth e y penwythnos o'r blân gyda chriw o feddygon a myfyrwyr i weld rhew cynta'r Gaeaf ar ffenestri hen westy fictoraidd yno. Cynhadledd Gristnogol i feddygon oedd hon, a phob diolch i Meirion Edwards am ei threfnu — fe wŷr y Dr. Ifan faint o waith distaw, anweledig, sydd i drefnu rhywbeth felly, a hefyd am iddo dywys pawb o gwmpas argaeau Cwm Elan ar y prynhawn Sadwrn. Syniad gwych oedd y gynhadledd; cyfle i drafod probleme moesol meddygol; i gâl ambell astudieth fanwl o'r Beibl gan y 'gŵr gwadd', y Dr. Peter Elwood o'r Cyngor er Ymchwil Feddygol; ac i gryfhau cyfeillgarwch a chyd-ddealltwrieth rhwng staff y Mynydd Bychan. Ond — i godi'r hen sgwarnog unweth yn rhagor — oni fyse'n ddedwyddach byth pe byse'r fath bethe'n digwydd drwy gyfrwng y be-chi'n-galw'?

## DERWEN A MESEN

Crwstyn o fwyd i'r sgwarnog wrth fynd hibo. Fe gwynws y Dr. Ifan mewn rhifyn diweddar' o'r Dinesydd obeutu diffyg addysg feddygol i'r myfyrwyr trwy gyfrwng yr iaith. Yn syth wedi iddo ddanfon y copi i'r wasg, dyna glywed bod Trysorydd Cymdeithas Gymrâg yr Ysgol Feddygol, Miss Ann Evans, wedi llwyddo i gael peth arian más o glwb y myfyrwyr meddygol at hyn. Y mae'r Med Club wedi cytuno i dalu coste dau fyfyriwr Cymrâg eu hiaith i fynd i gynhadledd benwythnosol nesaf y Gymdeithas Feddygol Gymrâg. Y mae'r Dr. Ifan yn croesawu hyn yn frwd, wrth gwrs; ond dim ond fel cam cyntaf. O gronfa 'Hamdden' y myfyrwyr y daw yr arian hwn — y gronfa a dâl am bethe fel teithio i whare pel-droed yn erbyn coleg arall — ac nid o ran academaidd yr ysgol feddygol ei hun. Ond 'fuodd 'riod dderwen heb fesen ynghynt.

# Ysgol St. Ffransis

Nos Iau, Mawrth 6ed cynhaliwyd 'Noson Gawl' yn ysgol St. Ffransis Y Barri. Dyma'r chweched tro i'r plant, y rhieni, a'r athrawon ddod at ei gilydd i gofio Dewi Sant, ac i godi arian ar yr un pryd.

Ar y Noson Gawl, bydd y prif adeilad yn llawn stondinau, a bydd yr athrawon wrthi'n ddyfal yn gwerthu'r nwyddau. Bydd stondin gyda'r Ysgol Feithrin wirfoddol hefyd, ac fe godwyd dros £60 ar y stondin honno y tro hwn.

Yn y ffreutur, 'roedd cawl cennin (cennin o ardd Mr Basil Davies) bara a chaws, pice-ar-y-mân, a chwpanaid o de i bob un. Roedd criw da o famau gweithgar wrthi'n brysur yn gweini. Welodd neb mo'r brifathrawes — 'roedd hi yn ei thŷ (drws nesaf i'r ysgol) yn gwneud 350 o bice-ar-y-mân' a phymtheg galwyn o gawl cennin! Cafwyd noson hwylus — ac fe godwyd £260 tuag at Gronfa Ysgol St. Ffransis.

# *C.I.G.*

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghanolfan yr Urdd ar nos Iau 14 Chwefror sefydlwyd Cell Dinas Caerdydd o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg. Etholwyd y swyddogion canlynol—

Cadeirydd: Alun Meirion, Is-gadeirydd: Alwyn Griffith, Cyhoeddusrwydd: Maredudd ab Iestyn. Dechreuwyd ar ymgyrch i gryfau statws yr iaith yn y brifddinas.

Bwriedir gynnal cyfarfod o'r gell o leiaf unwaith y mis. Cyhoeddir y manylion.

---

## GEM ANNISGWYL

**Pwt o farddonieth i gloi:**

**'Stafell Cynddylan ys tywyll heno,**
**Heb dân, heb wely,**
**Wylaf wers, tawaf wedy.**

Pe byse'r Dr. Ifan heb weld tudalen 434 o'r British Medical Journal (cyfrol 2 am 1979) yna ni fyse fe byth yn credu bod y llinelle hyn i'w gweld yno. Ond wedi gweld y dudalen y mae e, ac yno y mân nhw.

Stori hir yw paham eu bod hhw yno, ond yn y stori y mae'r Dr. Dewi Davies, dyn o Shir Gâr yn wreiddiol ac sydd bellach yn feddyg ymgynghorol yn Nottingham. Y mae' e'n sôn yn Sisneg am ei hoff farddonieth, ac wrth gyflwyno Dafydd ap Gwilym i'r Sison, dyma mae e'n weud: "among my school books was a volume of Dafydd ..... I found the language to be rather less difficult than Chaucer." Gorau Cymro, yntefe?

Hyd tro nesa,
Y Dr. Ifan.

# Her, ynte haerllugrwydd?

Ar Galan Mai eleni, bydd Cwmni Darlledu Caerdydd yn hawlio'r awyr am y tro cyntaf. O'r cychwyn, mae wedi dweud ei fod am fod yn Gwmni Cymunedol yng ngwir ystyr y gair — a'i fod am roi lle i lais y bobol, gan ein cynnwys ni'r Cymry Cymraeg.

Mae sylwadau fel y rhain yn edrych yn neis ar bapur, ac efallai na ŵyr y cwmni ei hun faint o ysgyfarnogod a gododd wrth esgor ar y fath syniad.

Wel, beth yw'r problemau?

Fe gaiff y rhai di-Gymraeg fod am y tro. Gadewch inni aros gyda ni — y Cymry Cymraeg — achos, rai wythnosau'n ôl, dywedodd un o'r cyfarwyddwyr ei fod yn siomedig yn ymateb y Cymry Cymraeg i'r her — nad oedden nhw ddim yn dod i'r gweithgorau a oedd wrthi fel cychod gwenyn yn cynllunio rhaglenni.

O ganlyniad, galwodd Cyfeillion Y Ddrama Gymraeg yng Nghaerdydd gyfarfod yng nghanolfan Yr Urdd, Heol Conwy — ac yno, i roi goleuni ar bethau, daeth Euryn Ogwen a Dan Damon.

Swm a sylwedd eu hanerchiadau nhw ill dau oedd — eu bod am ddwy awr o raglenni'r dydd — am o leiaf hanner can mlynedd! A'r broblem oedd — sut i fynd ati?

Yn nodweddiadol, efallai, penderfynwyd trefnu pwyllgor — neu i fod yn fanwl gywir, llu o bwyllgorau. Gofynnwyd i W.J. Jones, aelod o bwyllgor Y Dinesydd, alw nifer bobl at ei gilydd, pawb a oedd yn y cyfarfod, i fod yn fanwl gywir — a daeth criw lled dda i Athrofa Addysg Uwch De Morgannwg i roi cychwyn ar bethau. Pump o dimau mewn pum ystafell yn ceisio creu syniadau. Nid ar gyfer yr hanner can mlynedd nesaf, efallai, ond ar gyfer yr hanner can niwrnod.

Ar ôl cynllunio, daeth arweinyddion y gwahanol grwpiau, Y Parchedig Geraint Tudur, Mr Alun Guy, Mr Lloyd Evans a Mr Emyr Jenkins a Mrs Elinor Wyn, o dan gadeiryddiaeth W.J. Jones i ail gyfarfod gyda Dan Damon yn swyddfa'r Eisteddfod Genedlaethol — i ddechrau ar y syniad o leoli'r syniadau yn rhaglen y cwmni.

Wrth i ohebydd Y Dinesydd ysgrifennu'r geiriau hyn, mae'n disgwyl i'r ffôn ganu — gair oddi wrth Dam Damon i ddweud sut y bydd y syniadau'n cael eu trin a'u dethol.

Ond gwyddom lawer o bethau. Mae'r slot Cymraeg o hanner awr wedi saith tan naw o'r gloch bob nos — adeg pan na fydd Cymraeg yn rheolaidd ar y ddau gyfrwng arall. Darlledir, hefyd, newyddion Cymraeg am funud bob awr, ar ben yr hanner awr.

Ffolineb fyddai datgelu mwy yma, i'r cyfan fod yn ffres ar Galan Mai, ond yn y gobaith y bydd Calan Mai yn y flwyddyn 2030, ac y bydd Y Dinesydd a Darlledu Caerdydd yn parhau i fod, carwn wneud apêl.

Mae rhai'n meddwl mai haerllugrwydd ar ran y Cwmni yw "dishgwl i ni neud rhaglenni iddyn nhw," ac mae'n bosib eu bod yn iawn. Mae eraill am gyfrannu, ac mae perygl i bobl fynd o gyswllt. Os oes gan rywun ddiddordeb mewn rhywbeth, ei gam gorau fydd cysylltu â W.J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (756282). Nid yw'n dal perthynas â'r cwmni mewn unrhyw ffordd, ond mae'n cadw golwg ar y gweithgor Cymraeg am y tro. Mae am bwysleisio fod rhyddid a chroeso i bob un ddod â'i syniadau. Bydd arweinyddion y gwahanol weithgorau a nodwyd uchod yn galw grwpiau eto cyn hir. Gwaith W.J. Jones fydd eich rhoi mewn cyswllt ag un ohonyn nhw ar ôl gwybod am eich diddordebau.

Her ynteu haerllugrwydd? Cawn weld!

## Dr CATTELL

Ddiwedd Ionawr bu farw'r Dr. Maldwyn Cattell yn ddisymwyth iawn. Ef oedd Ysgrifennydd Cymru o Gymdeithas Feddygol Prydain.

'Roedd yn uchel ei barch yma yng Nghymru, ym Mhrydain ac mewn gwledydd tramor. Gwnaeth enw da iddo'i hun fel gŵr caredig, call, un y gellid troi ato am gyngor a barn gytbwys. Bu galw mawr am ei wasanaeth ymysg meddygon yn ystod y cyfnod o newidiadau ysgubol i'n gwasanaeth iechyd. Cydymdeimlwn â'i wraig Beryl a'r teulu yn eu colled.

## LONA a JOHN

Un o athrawon mwyaf poblogaidd Bryntaf oedd Lona Cullum Lewis. Ar ôl priodi â John Lloyd Hughes gadawodd Lona Gaerdydd i fynd i fyw i Lanerfyl.

Ganwyd merch, Hawys, i Lona a John yn niwedd Chwefror. Erbyn hyn mae'r teulu wedi ymgartrefu yng Nghaersws, Powys.

## *TRELAI*

Trelai — y rhan yna o'r brifddinas sy'n ymestyn o Sain Ffagan yn y Gogledd, drwy Goedwigoedd Plymouth ac yn syth i'r de, ar draws y briffordd sy'n arwain i'r Bontfaen a'r Gorllewin, hyd at yr hen faes rasus a'r eglwys hynaf yng Nghaerdydd, Eglwys Caerau. Mae'n ardal sydd wedi'i hamddifadu o lawer o'r manteision a geir yn rhannau mwy llewyrchus y ddinas, ardal lle mae'r caledi yn fynych yn amlwg ar wynebau'r brodorion. Ardal hollol ddi — Gymraeg. Hollol ddi — Gymraeg? Tybed.

Mae na'n agos i bum deg — ie, 50 — o blant yn gadael Trelai yn feunyddiol i dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgolion Rhydfelen, Llanhari, Glantaf ac ysgolion Meithrin yr ardal. Dyma'r ardal hefyd lle cynhaliwyd ymgyrch fwyaf llwyddiannus y Brifddinas ddwy flynedd yn ôl i roi cyhoeddusrwydd i'r Eisteddfod Genedlaethol. Felly, Gymry Caerdydd, mae 'na Gymry yn byw i'r ochr deau o Palas Road, a gobeithir y cewch beth o'u hanes o bryd i'w gilydd yng ngholofnau'r "Dinesydd".





**Ffenestr-siop**
**Y SIOP I CHI...**

Pan fyddwch chi'n ystyried gwelliannau i'r cartref, ac yn wynebu'r broblem o gael ffenestr neu ddrws.

Beth am... ddod i ymweld â'r arbenigwyr yng Nghanolfan Ffenestri De Cymru a gweld bron 100 mlynedd o brofiad o wneuthur ffenestri ar waith?

...weld y detholiad ehangaf posib o ffenestri a drysau patio o ansawdd dda, a'u gweld yn cael eu gwneud yn y fan a'r lle?

...weld sut y gellir arbed ar filiau gwresogi drwy dorri i lawr ar y gwres a gollir a chynyddu gwerth eich tŷ ar yr un pryd?

...dderbyn cyngor ar osod cyfarpar i mewn eich hunan — gellwch arbed 50% arall felly.

...edrych ar ein telerau hûr-bwrcas?

**Yn yr amserau caled hyn, synhwyrol yw edrych CYN prynu.**

**CANOLFAN FFENESTRI DE CYMRU**

Heol Curran, Caerdydd. tel. 388555
Llun-Gwen 9a.m. hyd 5p.m.,
Sad 9a.m. hyd hanner dydd.
Croeso mawr i'r Cyhoedd a'r Fasnach.

JONWINDOWS

*— yr enw y gellwch ymddiried ynddo* JWd
(Aelod o Grŵp John Williams o Gaerdydd Cyf.)

# Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Ebrill 1980

Henri Laurens
*Tan 27 Ebrill*
*Y Prif Adeilad, Parc Cathays, Caerdydd*
Y mae'r arddangosfa hon o waith un o gerflunwyr mwyaf y ganrif yn cynnwys dyluniadau, printiau, *collages* a cherfluniau pres. Ganed Laurens ym Mharis ym 1885 ac fe'i hyfforddwyd yn y grefft o gerflunio. Datblygodd ei waith yn y cyfnod pan oedd Picasso a Braque yn newid holl gyfeiriad celf Ewropeaidd gyda'u syniadau newydd am Giwbiaeth, a daeth Laurens ei hun yn un o ddisgyblion amlycaf y syniadaeth honno. Y mae ei gerfluniau pres, y cerfweddau a'r *collages* diweddaraf yn yr arddangosfa ymysg y gwaith Ciwbaidd mwyaf rhagorol, a chyfrifir *L'Adieu* a *Hydref* ymhlith ei oreuon. Bu Laurens farw ym 1954. Trefnwyd yr arddangosfa hon gan Gyngor Celfyddydau Prydain Fawr.

Henebion Hanesyddol ym Mhrydain
*Tan 13 Mai*
*Y Prif Adeilad, Parc Cathays, Caerdydd*
Gwelir yn yr arddangosfa y gwaith manwl a thrylwyr a wneir gan Adran yr Henebion ac Adeiladau Hanesyddol er mwyn cadw a chynnal treftadaeth bensaerniol gyfoethog Prydain. Trefnwyd yr arddangosdfa gan Adran yr Amgylchedd.

Crefftwyr Celf Cyfoes
*Y Prif Adeilad, Parc Cathays, Caerdydd*
Arddangosir crochenwaith a basgedwaith yn ystod mis Ebrill.

Brodor o Gaerdydd yw Clive Bowen. Ar ôl astudio peintio penderfynodd fwrw ei brentisiaeth gyda'r crochenydd enwog Michael Leach yn Yelland. Bu'n gweithio yn Barnstaple cyn agor ei weithdy ei hun yn Shebbear yn Nyfnaint.

Yng Nghaint y ganed David Drew a bu'n gweithio yno am gyfnod fel peiriannwr. Pan symudodd i Wlad-yr-haf ychydig flynyddoed yn ôl dechreuodd ymddiddori mewn basgedwaith. Mae'n arbenigo mewn plethu basgedi ar gyfer y tŷ ac at ddibenion amaethyddol. Defnyddia wiail helyg sy'n tyfu'n lleol.

Troeon yr Yrfa — Dociau Caerdydd
*Tan 31 Mai*
*Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru, Heol Bute, Caerdydd*
Olrheinir hanes ardal Butetown, Caerdydd o'r ddeunawfed ganrif i'n dyddiau ni yn yr arddangosfa hon. Ceir printiau, ffotograffau, planiau a modelau o longau ymhlith y defnyddiau a arddangosir.

Peiriannau Gyrru Llong Fodern — H.M.S. Cardiff
*Tan 8 Mai*
*Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru, Heol Bute, Caerdydd*
Trefnir yr arddangosfa fechan hon ar achlysur ymweliad H.M.S. *Cardiff* â'r Brifddinas. Gwelir enghreifftiau o beiriannau Tyne ac Olympus Rolls-Royce sy'n gyrru'r llong fodern.

Peintiadau gan Gilbert Mason
*3 Ebrill - 4 Mai*
*Tŷ Turner, Heol Plymouth, Penarth*
Ganed Gilbert Mason (1913-72) yng Nghasnewydd, Gwent ac astudiodd ysgythru, engrafu a drafftsmonaeth yn y Coleg Celf Brenhinol. Bu'n athro am gyfnod yn Leeds, ond ar ôl y Rhyfel dechreuodd beintio. Gwelir rhai o'i ysgythriadau cynnar ynghyd â detholiad helaeth o'i waith diweddar yn yr arddangosfa hon. Peintiodd yn nhraddodiad Rhamantaidd celf Prydeinig a dengys ei dirluniau a'i astudiaethau ei gariad dwfn tuag at ei famwlad.

Cerfluniau gan Moelwyn Merchant
*Ebrill - 4 Mai Tŷ Turner, Heol Plymouth, Penarth*
Ganed Moelwyn Merchant yn Port Talbot ym 1913 ac fe raddiodd yng Ngoleg y Brifysgol, Caerdydd lle dychwelodd yn ddiweddarach i fod yn ddarlithydd mewn Saesneg. Ym 1960 penodwyd ef yn Athro Saesneg ym Mhrifysgol Exeter. Cyhoeddodd ddwy gyfrol o farddoniaeth — *Breaking the Code* (1975) a *No Dark Glass* (1979). Dechreuodd gerflunio yn ystod y chwedegau ac y mae ei brif themâu yn ymwneud â'r torso, meini hirion, ffigurau cyntefig a chreadigaethau tebyg i ogofau.

Arddangosfa yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
*14-19 Ebrill*
*Y Prif Adeilad, Parc Cathays, Caerdydd*

Gweithgareddau i Blant
*9-18 Ebrill (ar wahân i'r Sadwrn a'r Sul)*
*Y Prif Adeilad, Parc Cathays, Caerdydd*
*Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru, Heol Bute, Caerdydd*
*Amgueddfa Chwareli Gogledd Cymru, Llanberis*
Trefnir gweithgareddau anffurfiol i blant 8-13 oed yn ystod Gŵyl y Pasg, rhwng 10-1 a 2-4.30. Mae'r holiaduron Cymraeg a Saesneg wedi'u seilio ar wrthrychau yn yr orielau. Ceir byrddau, creaons a stoliau ar fenthyg am ddim.



**Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru**
*Llun: Amgueddfa Genedlaethol Cymru*

## CYMDEITHAS GYMRAEG PENTWYN, LLANEDEYRN A'R CYLCH

Daeth amser inni ymgynnull am noson Gymdeithasol unwaith eto yn y Gymdeithas. Dathlu Dydd Gŵyl Dewi Sant y buwyd y tro yma ar nos Sadwrn 15fed o Fawrth, yn y Neuadd Gymdeithasol yn Llanedeyrn, gyda pharti Dawns yr Aelwyd yn ein harwain mewn noson Twmp a Chawl. Edrychon ymlaen at lu o ymwelwyr i'r noson ddifyr hon.

Eisioes mae'r aelodau wedi bod yn bur brysur — cyfrannwyd £46.22 i Gronfa'r Dinesydd — diolchwn yn fawr iawn i aelodau o gôr yr Aelwyd a gyfrannodd mor hael o'u hamser i sicrhau llwyddiant.

Cyfrannodd y Gymdeithas hefyd £33.00 i ysgol plant methedig Pentwyn — ffrwyth noson canu carolau hwylus dros ben. Ac yna ym mis Chwefror cawsom ddarlith hynod o ddiddorol gan Dr. Roy Saer ar y Fari Lwyd. Er mai prin oedd y rhif ar y noson yma roedd ein gwerthfawrogiad yn fawr oawn.

Os hoffech **Chwi** ymuno â'n Cymdeithas ni — ffoniwch Avril Jones (757514) am fanylion ein rhaglen at fis Gorffennaf. Mae helfa drysor, noson ysgubor a chinio bendigedig ar ddiwedd y tymor ar y gweill!

# DUW A'R SECWLAR

**Dyn yn troi ei lygaid oddi wrth yr hyn sydd uchod at yr hyn sydd isod yw secwlariaeth, gair a ddaw o'r Lladin, "saeculum" sy'n golygu "perthyn i'r byd hwn". Cyfleu byd amser a wnai "saeculum" i'r Lladinwr, ond 'roedd ganddo air arall am y byd, sef "mundus". Defnyddid hwn ganddo i gyfleu byd mewn gofod, lleoliad y blaned.**

Ym myd amser, neu mewn hanes, y digwydd popeth sy'n ddeinamig. Dyma efengyl yr Iddew a'r Cristion. 'Roedd yn well gan y Groegwr lonyddwch gorffenedig byd y gofod, a hyn yw'r esboniad ar ddiwinyddiaeth gadarn, ond cwbl ddigyffro y canrifoedd cynnar. Rhyddhaodd gwyddoniaeth y diwinydd o hualau'r grefydd gonfensiynol, a'i gynorthwyo i weld y dwyfol ar waith mewn hanes. Wrth gwrs, 'roedd y Beibl yn gwahodd dyn i ddarganfod dirgelwch a chyfrinachau'r cread, ac fe ellir dadlau mai Cristnogaeth a roddodd gychwyn ar y broses o secwlareiddio. Hyn yw'r esboniad ar ddefnydd y diwinyddion o'r gair "secularization" fel gair glân. Ond gair brwnt yw'r gair "secularism". Fy mhroblem i yn awr yw diogelu rhamant y cyntaf, sef y broses, gan nad yw'n cyfieithu i'r Gymraeg.

Secwlariaeth a gafodd y bai am bopeth gan bregethwyr a diwinyddion. Ychydig sydd wedi ceisio gweld na allai'r eglwys, fwy na'r brenin Caniwt, ddal y tonnau'n ôl. Ond heb y broses hir, y secwlareiddio oddi ar y Canol Oesoedd, rhyfedd o fyd fyddai hwn, a dieithr i ni.

Yn ddios, mae'r dyn secwlar wedi rhoi Duw mewn cartref henoed, ac wedi dechrau rhoi ar led iddo farw yn nechrau'r saithdegau. Tagwyd yr angel fu'n hebrwng llawer ohonom i gapel, ac a fu'n gwarchod y lein ddillad ar y Sul. Gyda'r secwlareiddio daeth swagro balch a siarad brás. 'Roedd hyn y rhwym o ddigwydd gyda machlud y mutholegol a'r metaffisegol. Gyda'r angylion, diflannodd y bwganod a'r gwrachod fu'n cadw dyn yr oesoedd cynnar rhag byseddu'r dirgelion oedd ym myd natur. Gyda gwyddoniaeth a technoleg o'i blaid, ganwyd y dyn pragmatig, ymarferol. Nid oes ganddo ddiddordeb yng nghychwyn pethau, dim ond yn y modd y maent yn gweithredu. A dyfynnu Bonhoeffer, "daeth dyn i'w oed."

Yn nechrau'r chwedegau, 'roedd dylanwad y syniad o "Gristnogaeth ddi-grefydd" Bonhoeffer yn cyniwair trwy'r eglwysi. A'r secwlareiddio mawr ar gynnydd, dyma gyfle y Gristnogaeth newydd. Dyma fyrdwn "Honest To God" (Robinson) a chyfrol boblogaidd Harvey Cox, "The Secular City". Americanwr yw Cox, à gwaed Cymreig yn ei wythiennau. Gwelai Cox obaith i ddyn y ddinas. 'Roedd mwy yn y ddinas nac yn nhref a phentref dechrau'r ganrif. Ar ôl torri'n rhydd o faglau'r llwyth, cai annibyniaeth a llonydd i ffeindio Duw drachefn. Tybed a yw Bob, dinesydd newydd Caerdydd, creadigaeth Siôn Eirian, yn ymgorfforiad o'r dyn secwlar sy'n torri'n rhydd o'r maglau, yn disgyn i drap, ac eto, yn y diwedd yn ddihangol? Gyda llaw, mae'r nofel hon yn rhoi portread grymus o secwlariaeth. 'Rwyf wedi ei chanmol fel llenyddiaeth y byd secwlar, ac fel dogfen sy'n disgrifio'r hyn a ddilyn machlud y trosgynnol. Wrth gwrs, ni allaf dderbyn nihilistiaeth fel athroniaeth. Nid wyf yn credu bod yr awdur am wneud hynny.

Ysgrifennwyd silffoedd o stwff ar secwlariaeth, ac mae cyfrol Robin Attfield* o Adran Athroniaeth Coleg y Brifysgol, Caerdydd, yn gyfraniad pellach a phwysig, os yn hwyr. Erbyn hyn, nid yw trafod secwlariaeth mor ffasiynol. Ond, mae'n dda cael safbwynt yr athronydd, yn enwedig yr athronydd sy'n gytbwys ei farn, ac yn ddigon uniongred i weld gwerth yn yr hyn a ddywedwyd yn nhymor y grefydd gonfensiynol. Os mai pechod y secwlarydd yw anwybyddu'r gorffennol, a byw i edrych ymlaen, nid yw Attfield wedi disgyn i'r trobwll hwn. Ar ôl darllen y gyfrol drwyddi, 'roeddwn yn teimlo fy nod wedi gwyntyllu'r ffasiynau i gyd, ac yn falch nad oedd y secwlareiddio a gafwyd wedi fy ngadael yn rhynnu mewn rhesymoliaeth noeth. Mae'n bleidiol i resymoldeb, ond mae'n derbyn bod Duw yn llefaru mewn barddoniaeth yn ogystal â rhyddiaith.

Hanesyddol yw ei ymdriniaeth, ac mae'n cyfyngu ei hun i ddwy ganrif, sef y ddeunawfed, a'r un ddilynol. Mae'n dechrau gyda Francis Bacon ac yn galw gyda'r mawrion — yn athronwyr a gwyddonwyr — hyd oni ddaw at Immanuel Kant. Os yw'r cyfnod yn un dieithr i chwi, a'r enwau, cewch fudd yn darllen cyfrol yr Athro Richard Aaron ar athronwyr y cyfnod hwn. 'Roedd Bacon, Descartes, Spinoza a Leibniz yn arloeswyr am iddynt ganiatau ysgaru crefydd a gwyddoniaeth, a rhoi hwb i broses y secwlareiddio.

Yr athronwyr oedd yr arloeswyr yn y dyddiau gynt. Hwy fyddai'n symud bysedd y cloc. I'w canlyn, deuai'r llenorion, yr arlunwyr, y cerddorion, ac yn olaf oll, y diwinydion. Cyhoeddodd Nietzsche trwy enau'r gwallgofddyn bod Duw wedi marw. 'Roedd hynny bron ganrif yn ôl. Mae'r beirdd a'r llenorion wedi ail-adrodd hyn y ganrif hon, ond yn ddiweddar y mentrodd diwinyddion ddweud hyn yng Nghymru. A'r cyfan a olyga ydyw diffinio oblygiadau secwlariaeth.

Mae llyfr Attfield wedi'i gynllunio'n drefnus, ac mae hyn yn help i'r sawl sy'n ddieithr yn y maes i'w ddilyn. Olrhain a wna y secwlareiddio a fu mewn gwyddoniaeth, anthropoleg a moeseg. Ac er iddo dderbyn bod y broses wedi gwedd-newid yr holl feysydd hyn, deil bod modd i ddefnyddio'r profion traddodiadol i ddadlau bod Duw yn bod.

I Robin Attfield, nid yw crefydd yn mynd i ddiflannu. Nid oes angen i neb ohonom fod yn broffwyd i wneud datganiad o'r fath ar drothwy'r wythdegau. Ugain mlynedd yn ôl, 'roedd awduron llyfrau ar secwlariaeth yn darogan marw Duw a'r gyfundrefn. Bellach, mae mwy a mwy yn crefu am yr Uwchfodol, am Dduw. Ar ôl byw gyda'r dyn allanol, dyma ddyhead eto yn niwedd y saithdegau am borthi'r dyn mewnol. Dychwelodd y miloedd at bob math o grefyddau. Ni freuddwydiodd Harvey Cox a'i debyg y digwyddai hyn. Ond dyma neges ei gyd-wladwr, Peter L. Berger, yn ei gyfrol boblogaidd, A RUMOR OF ANGELS (Modern Society and the Rediscovery of the Supernatural.)

Yn awr, mae dyn yn edrych ar y pethau sydd uchod eto, neu o leiaf, ar yr hyn sydd y tu fewn iddo. Nid oes ganddo ganllawiau na chyfarwyddyd diogel, ac mae'r sbri grefyddol yma yn ffasiynol. Fe ddylai'r awdur fod wedi rhoi mwy o sylw i'r "peth hwn" yn y diweddglo gan iddo sylweddoli bod ei gyfrol yn hwyr. Ar gloc meddwl yr oes, mae'n unfed awr ar ddeg ar secwlariaeth. Ond, mae'r angylion eto yn sibrwd am y sylweddau tragwyddol.

Ni fydd y gyfrol yn tanio Afon Taf. Yn un peth, mae'n ddrud, ac yn ail, mae'n drwm i'r capelwr a'r digapel. Ond, bu ei darllen yn ddysg i mi. Pam?

(1) Ynddi, gwelir mai bygythiad yw secwlariaeth, bygythiad bytheiad a gollodd ei dannedd yn barod. Petaem yn barotach i gyplysu ffydd gyda rheswm fel y gwna Attfield, fe fyddem wedi gweld ynghynt nad y Farn fawr yw secwlariaeth, ond rhyw Frân ddu.


(2) Os yw Duw crefydd yn dihoeni, mae Duw ffydd yn dal yn fyw. Fe fu Duw crefydd yn ymyrryd ar ffiniau ein bywyd yn ôl ein mympwy. Ond, mae'r dirgelwch sydd ynghudd yn y byd secwlar yn byw i'n galw ato yn barhaus, ac yn ein galw i fod yn gyfryngau i ddynoli yn hytrach nac i ddad-ddynoli. Mae'r byd bregus a fu yn nwylo'r gwyddonwyr secwlar yn ochneidio am sylw meibion Duw.

(3) Gynt, edrych i'r gorffennol a wnai dyn am gysur a gobaith. Heddiw, y dyfodol sy'n ei ddenu, a da hyn, gan mai yn y dyfodol y bydd yn rhaid i ni fyw. Rhydd hyn galondid i'r sawl sy'n deall ei Feibl, oherwydd neges i ddyn yn ei ddyfodol yw'r Testament Newydd.

(4) Yn bendifaddau, mae'r enw Duw, er iddo syrthio i'r llaid a'r lludw ganwaith yn codi dro ar ôl tro. Mae Buber (The Eclipse of God) yn taeru i hyn. Ac os medrwn ninnau ddeall a dehongli patrymau bywyd heddiw ac yfory, a'u dehongli yng ngoleuni'r diwylliant cyfoes, deuwn i wybod mwy amdanon ein hunain, ac i ddweud rhywbeth mwy perthynasol am Dduw. DUW YW DYFODOL DYN, ac ni fedr ddianc rhagddo.

W. CYNWIL WILLIAMS.

*GOD AND THE SECULAR. Robin Attfield. University College Cardiff Press. £9.50 tt. 231



*Arluniad Olwen Hughes, trwy ganiatad David Morgan, yr Ais.*

**Hen wely Afon Taf, yn edrych tua'r dwyrain i gyfeiriad Heol y Santes Fair.**

### LLONGYFARCHIADAU

I Miss Ann Rosser, 6 Lakeside ar ennill gradd M.A. Prifysgol Cymru am draethawd ar hanes y delyn. Mae Miss Rosser yn aelod yn Heol y Crwys ac yn gweithio yng Ngholeg Cyncoed.

# Cofiwch am Y DINESYDD

### LLENWI'R GADAIR

Nos Wener, Chwefror 28, mewn cyngerdd gan Gôr Ardwyn, cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Dinas Caerdydd gadair Eisteddfod Caerdydd (y gadair nas llenwyd ym 1978) i Ysgol Uwchradd Gymraeg Glan-taf.

ARCHEB BANC

AT Y RHEOLWR ....................................(Enw'r Banc)
....................................(Cyfeiriad y Banc)
....................................

Dymunaf i chi dalu i Fanc Masnachol Cymru Caerdydd, 114-116 Heol y Santes Fair, Caerdydd (Rhif Cenedlaethol 30-12-50) i gyfrif PWYLLGOR RHEOLI Y DINESYDD, rhif cyfrif 40985012, ar unwaith, ac ar y dydd cyntaf o fis ..................(enw'r mis) bob blwyddyn wedi hynny oni ddiddymir yr archeb hon gennyf mewn ysgrifen y swm o ................ (mewn geiriau) £..............(mewn ffigurau).

(ARWYDDWYD) ....................................

(CYFEIRIAD) ....................................

....................................

Rhif ac enw'r Cyfrif ....................................
....................................

Dyddiad ....................

PWYSIG: Ar ôl cwblhau'r archeb banc uchod a fyddwch gystal â'i hanfon at Mr. Emrys Jarman, Trysorydd Y Dinesydd, 198 Hill Rise, Llanedeyrn, Caerdydd. CF2 6UN, yn hytrach na'i hanfon at eich Banc. Bydd y Trysorydd yn gallu nodi, felly, fanylion pob Archeb.


I'w gyhoeddi yn ystod
Mis Ebrill

# LLYFR

# 3

CYMRU HTV WALES

Llyfr y flwyddyn i'r
plant - gan lyfrwerthwyr
led-led Cymru


*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 43 Lower Cathedral Rd, Caerdydd.*